Ysgol Penglais School

*Ffôn/* Ffôn: 01970 624811
*Ffacs/*Fax: 01970 625830
*E-bost /* E-bost: slb@penglais.org.uk
*Gwefan /* Gwefan: www.penglais.org.uk

Waunfawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AW

Mawrth 2025

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd llawn amser athro/athrawes Dylunio a Thechnoleg (cyflenwi dros gyfnod mamolaeth) o fis Medi 2025, yn Ysgol Penglais. Fe fyddwch yn ymuno â'r ysgol mewn amser cyffrous wrth i ni fyw ein gweledigaeth yr ysgol.

'Mae Ysgol Penglais yn ysgol hapus, uchelgeisiol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi.' Rydym yn gweithio'n galed gyda staff, disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol i sicrhau fod Ysgol Penglais yn ffynnu i fod yr ysgol arbennig y mae'r gymuned yn ei haeddu. Rydym yn gweithio'n barhaus i gyrraedd y safonau uchaf o ran cyrhaeddiad disgyblion, ymddygiad a safon dysgu ac addysgu.

Mae gennym gorff o staff profiadol sydd yn gweithio'n galed tra'n llwyddo i greu naws cynorthwyol a chyfeillgar. Mae'r disgyblion eisiau llwyddo yn uchel ac eisiau cael eu herio a'u cefnogi i wneud hynny. Mae yna lawer o anghenion gwahanol yn yr ysgol ac mae'r adran gynhwysol yn gweithio'n galed ar draws yr ysgol i gefnogi'r disgyblion pan bo'r angen. Mae'r 6ed ddosbarth yn gryf gyda tua 230 o ddisgyblion ac yn cyrraedd safonau uchel iawn.

Wrth ymuno ag Ysgol Penglais, fe fyddwch yn cael eich cefnogi yn broffesiynol i gyrraedd rhagoriaeth yn eich swydd. Gallaf addo i chi brofiad heriol ond a fydd yn y pendraw yn brofiad gwerthfawr wrth i ni symud ymlaen i fod yn ysgol ragorol.

Mae'r wybodaeth yn y pecyn yn rhoi darlun o'r ysgol i chi. Pe dymunech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helena Clements ar hcl@penglais.org.uk neu ffoniwch 01970 624811.

Edrychaf ymlaen i dderbyn eich ffurflen gais.

Yn gywir,

M. A. Hughes

Mair Hughes
**Pennaeth**

*Pennaeth / Headteacher:- Ms Mair Hughes*

# GWELEDIGAETH YSGOL PENGLAIS:
# Anelu am Ragoriaeth

Mae Ysgol Penglais yn un hapus, uchelgeisiol, amrywiaethol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi. Rydym yn gymuned gynhwysol gref, lle mae pawb yn gofalu am ei gilydd. Wrth ddatblygu ein sgiliau annibynnol a gweithio gyda staff, teuluoedd ac eraill yn y gymuned fe wnawn lwyddo a chyflawni ein gorau. Mae'r ysgol yn gymuned egnïol gyda myfyrwyr a staff yn cydweithio, yn dysgu, yn meddwl ac yn gweithio'n galed. Rydym yn galluogi ein disgyblion i wynebu heriau ac yn cydnabod fod hyn yn allweddol i'w datblygiad unigol. Wrth ddatblygu dewrder, hyder, gwytnwch, annibyniaeth a goddefgarwch bydd ein myfyrwyr yn dod yn ddinasyddion cyfrifol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn y byd.

# GWERTHOEDD YSGOL PENGLAIS

Bod yn barchus a charedig

Bod yn uchelgeisiol a gwydn

Datblygu annibyniaeth, hyder a chyfrifoldeb

Croesawu amrywiaeth a dathlu llwyddiannau

Bod yn ddinasyddion balch a gweithgar yn ein cymunedau

## Athro/Athrawes Dylunio a Thechnoleg (MPS) – cyfnod mamolaeth

Rydym yn awyddus i benodi athro/athrawes Dylunio a Thechnoleg rhagorol fydd yn gallu cefnogi datblygiad Dylunio a Thechnoleg yn yr ysgol er mwyn sicrhau safonau uchel yn y pwnc.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ffynnu ar yr her o weithio gyda'n staff a disgyblion i sicrhau fod yr ansawdd dysgu ac addysgu yn gyson o safon dda a rhagorol; y bydd profiad dysgu'r disgyblion wedi ei selio ar sialens a meddwl creadigol ac y bydd yr holl ddisgyblion yn cyrraedd safonau uchel ac yn datblygu eu hyder. Byddwch yn rwymedig i ddod o hyd i ddulliau cynhwysfawr sydd yn ysbrydoli disgyblion ac yn gwella cyfleoedd bywyd ein holl ddisgyblion. Byddai'r gallu a'r parodrwydd i ddysgu Bwyd a Maeth yn fantais.

Mae hwn yn gyfle gwych i ymgeisydd uchelgeisiol gael chwarae rôl allweddol i gynyddu uchelgeisiau a llwyddiannau ein disgyblion, ac felly yn cyfrannu at siwrnai Ysgol Penglais i fod yn ysgol ragorol.

Mae gan Ysgol Penglais lawer i'w gynnig:

- ysgol sydd yn seiliedig ar waith ymchwil gyda pherthnasau da rhwng staff a disgyblion
- ymroddiad i ddatblygiad proffesiynol staff er mwyn cyrraedd rhagoriaeth
- agos i dref Prifysgol bywiog Aberystwyth
- wedi ei leoli ar arfordir bendigedig bae Ceredigion, ardal o hyfrydwch naturiol

Am fwy o fanylion, cysylltwch a Helena Clements (PA i'r Pennaeth) ar 01970 624811 neu drwy e-bost hcl@penglais.org.uk

Mae Ysgol Penglais yn ymrwymedig i ddiogelu ac annog budd a lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, ac yn disgwyl i holl staff a gwirfoddolwyr rannu yr ymrwymiad hwn.
Bydd raid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn barod i ymgeisio am DBS a'r archwiliadau eraill sydd yn addas ar gyfer y swydd.

Mae Ysgol Penglais yn gyflogwr sydd yn sicrhau cyfleoedd cyfartal.

**Dyddiad cau: 03/04/2025**
**Cyfweliadau: Wythnos yn dechrau 7fed Ebrill 2025**

# Swydd Ddisgrifiad – Athro / Athrawes Dylunio a Thechnoleg

**Teitl swydd:** Athro/Athrawes Dylunio a Thechnoleg
**Gradd cyflog:** MPS
**Yn atebol i:** Bennaeth Cyf-adran

## Pwrpas Craidd:

- I sicrhau dysgu ac addysgu o safon uchel a chyson
- I sicrhau cynnydd da ac ymddygiad rhagorol gan ddisgyblion o fewn y gwersi
- I rannu a chefnogi cyfrifoldeb yr ysgol i sicrhau a monitro cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol ac academaidd
- O dan gyfarwyddyd rhesymol y Pennaeth, gweithredu dyletswyddau proffesiynol athro/athrawes ysgol fel y'i penodwyd yn y Dogfen Cyflog Ac Amodau Athrawon diweddaraf

| **Prif gyfrifoldebau** | **Prif dasgau** |
|---|---|
| I fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd dysgu ac addysgu o safon uchel sydd yn arwain at gynnydd da | • Sicrhau fod yr addysgu yn ysbrydoli disgyblion i gyrraedd neu ragori eu targedau<br>• Cymryd i ystyriaeth, a chynllunio ar gyfer, anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys ADY, EAL, PDG, disgyblion talentog<br>• Gallu cymell disgyblion i archwilio ac chysidro dulliau gwahanol o ddysgu yn y pwnc<br>• Sicrhau fod disgyblion yn deall gofynion a deilliannau dysgu yn y pwnc<br>• Marcio llyfrau yn rheolaidd, yn ôl disgwyliadau'r ysgol, a rhoi adborth cyson sydd yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da ac ardderchog<br>• Gyda'r pennaeth cyf-adran a phenaethiaid adran, cyfrannu at y datblygiad o ymarfer dda yn y pwnc er mwyn sicrhau addysgu da a rhagorol yn yr adran<br>• Cyfrannu tuag at adolygiad cyson o'r cwricwlwm<br>• I gynnal a chadw amgylchedd glan a threfnus.<br>• I fod yn gyfrifol am reoli y Techgnegydd DT yn yr ystafell ddosbarth |
| I fod yn gyfrifol am gynnydd yr holl ddisgyblion yn y dosbarthiadau | • Gwneud defnydd effeithiol o ddata er mwyn dadansoddi a dilyn cynnydd disgyblion<br>• Sicrhau fod record disgyblion yn cael ei ddiweddaru yn aml er mwyn galluogi tracio ac arolygu cynnydd disgyblion<br>• Cymryd cyfrifoldeb am berfformiad a chynnydd disgyblion a ddysgir, gan gynnwys canlyniadau arholiadau<br>• Cyd-weithio gyda chyd-weithiwyr er mwyn paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol, gan gynnwys cyfrannu at baratoadau arholiadau a sesiynau adolygu<br>• Ymgymryd a'r marcio a chymedroli a rhoi gwybodaeth ar gyfer mynediad arholiadau yng nghyd a'r gofynion statudol a gofynion yr ysgol |
| I rannu a chefnogi cyfrifoldeb yr ysgol i sicrhau a monitro cyfleoedd ar gyfer | • I fod yn diwtor dosbarth ar gyfer grŵp penodedig o ddisgyblion<br>• I hyrwyddo cynnydd cyffredinol a lles disgyblion o fewn y grŵp dosbarth<br>• I ymgysylltu a'r Pennaeth Blwyddyn er mwyn sicrhau gweithrediad da o system fugeiliol yr ysgol |

| | |
|---|---|
| datblygiad personol ac academaidd | • Cofrestru disgyblion, eu hebrwng i'r gwasanaethau, hyrwyddo presenoldeb llawn i bob wers a'u hymroddiad i agweddau eraill o fywyd ysgol<br>• I werthuso a chadw golwg ar gynnydd disgyblion a chadw record cyfamserol ar gyfer y disgyblion fel bo'r angen<br>• Rhoi gwybod i'r staff priodol am broblemau sydd yn wynebu disgyblion a rhoi syniadau am sut i wella rhain<br>• I gyfathrebu fel sydd yn briodol, gyda teuluoedd y disgyblion a chyda pobl neu gyrff y tu allan i'r ysgol sydd yn ymwneud a lles unigolion, yn dilyn trafodaeth gyda staff priodol<br>• I gyfrannu at raglen ABCh a llês yn ôl polisi'r ysgol<br>• I ddefnyddio systemau ymddygiad yr ysgol er mwyn galluogi dysgu effeithlon<br>• Sicrhau fod rheolau a threfniadaeth yr ysgol yn cael ei ddilyn yn gyson ac yn deg ar gyfer pethau fel presenoldeb, amseroldeb a gwisg ysgol |
| I fod yn gyfrifol am sicrhau fod gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol yn cael eu hyrwyddo | • Sicrhau y disgwyliadau uchaf ar gyfer pob disgybl yn eu ymddygiad a'u dysgu, gan ddangos uchelgais ar gyfer pob disgybl<br>• Dilyn polisi ymddygiad positif yr ysgol a'i hyrwyddo bob amser<br>• Cyfrannu at fenter ysgol-gyfan yn y pwnc<br>• Cyfrannu at raglen o weithgareddau allgyrsiol, digwyddiadau cyfoethogi, ac ymweliadau a thripiau yn gysylltiedig a'r pwnc<br>• Manteisio ar gyfleoedd y weithio gyda chyd-weithwyr er mwyn datblygu a gwella ymarferion addysgu |
| I fod yn atebol am amddiffyn disgyblion | • Cyfrannu at amddiffyn a lles disgyblion gan ddefnyddio'r weithdrefn sydd ym mholisïau'r ysgol<br>• Sicrhau fod polisïau lles a diogelwch ac asesiadau risg yn cael eu dilyn |
| Arall | • I fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio gyda pholisi a gweithdrefn Amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a chyfrinachedd, a rhannu unrhyw bryder gyda'r person priodol.<br>• Sichrau fod polisi cyfleoedd cyfartal yn cael ei weithedu<br>• Bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfodydd perthnasol<br>• Cymryd rhan mewn hyfforddiant, gweithgareddau dysgu a datblygiad personol fel bo'r angen<br>• Adnabod eich cryfderau ac arbenigrwydd a'i defnyddio er mwyn cefnogi a chynghori eraill<br>• Ymgymryd yn llawn a rhaglen datblygiad proffesiynol a rhaglen rheoli perfformid yr ysgol<br>• Ymgymryd ag unrhyw dasg sydd yn gymesur gyda statws y gwaith o bryd i'w gilydd, fel y penodir gan y Pennaeth |

Nid yw'r disgrifiad swydd o angenrheidrwydd yn ddiffiniad llawn o'r swydd. Mi fydd yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, a gall cael ei addasu ar unrhyw adeg ar ôl ymgynghoriad gyda'r person yn dal y swydd .

## Manyleb Person

| | |
|---|---|
| Cymwysterau | • Statws Raddedig<br>• Statws Athro/Athrawes gymwysedig |
| Profiad | • Tystiolaeth o fod yn athro/athrawes da i ragorol<br>• Tystiolaeth o fod yn diwtor dosbarth arbennig<br>• Tystiolaeth o fonitro cynnydd disgyblion a dysgu ac addysgu |
| Sgiliau a galluoedd | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc i fyny at Lefel A ac o brosesau asesu yng nghyfnodau allweddol 3–5<br>• Gwybodaeth am Iechyd a Diogelwch yn yr amgylchfyd Dylunio a Thechnoleg a sicrhau diogelwch staff a disgyblion yn yr ardal<br>• Y gallu i hyrwyddo agwedd bositif at ddysgu ac at yr ysgol<br>• Safon uchel o gyfathrebu yn ysgrifenedig ac yn llafar<br>• Y gallu i ddefnyddio TGCh yn effeithiol |
| Rhinweddau personol | • Brwdfrydedd ar gyfer dysgu ac addysgu ac am eich pwnc<br>• Ymrwymiad tuag at ddatblygiad proffesiynol eich hunan ac eraill<br>• Y gallu i greu perthynas dda gyda disgyblion gyda ymrwymiad at ddeilliannau positif ac iachus ar gyfer pobl ifanc<br>• Gallu gwrando yn effeithiol a bod yn sensitif i eraill<br>• Ymrwymiad gweladwy at amddiffyn disgyblion<br>• Ymrwymiad gweladwy at gyfleoedd cyfartal<br>• Synnwyr digrifwch iachus<br>• Presenoldeb a prydlondeb rhagorol |
| Arall | • Brwdfrydedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol<br>• Ymrwymiad tuag at ethos, amcanion yr ysgol a'i chymuned. |

Mawrth 2025